# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 13 Mai 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(197)

**Datganiad y Llywydd**
Cyhoeddodd y Llywydd ei bod yn 15 mlynedd ers i'r Cynulliad gyfarfod am y tro cyntaf ac felly, ar ei rhan hi a phob Llywydd blaenorol, diolchodd i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu'n adeiladol yn ystod y cyfnod hwnnw at gyflwyno deddfwriaeth a pholisi, a chraffu ar ddeddfwriaeth a pholisi, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Cymru.

**Datganiad y Llywydd**
Cyhoeddodd y Llywydd bod y Bil Addysg (Cymru) wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 12 Mai.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 9. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.16

**3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adroddiad yr Athro Andrews ar ofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot**

Dechreuodd yr eitem am 14.30

**4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Argymhelliad ar leoli'r Ganolfan Isranbarthol ar gyfer Gofal Newyddenedigol Dwys yng ngogledd Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 15.33

**5 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Gweithio mewn Partneriaeth gyda Chymdeithasau Tai**

Dechreuodd yr eitem am 16.04

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Strategaeth Ddŵr i Gymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.45

**7 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd**

Dechreuodd yr eitem am 17.16

**8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio**

Dechreuodd yr eitem am 17.57

**NDM5492 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio sy'n ymwneud â mesurau sy'n effeithio ar fusnesau: cyffredinol, trafnidiaeth, yr amgylchedd, addysg a hyfforddiant, mesurau i leihau'r baich ar awdurdodau cyhoeddus a deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.03

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 14 Mai 2014**